**DYLAI CYNGHORAU LAWRLWYTHO'R SET HON O WEFAN LLYWODRAETH CYMRU A'I HADDASU YN ÔL YR ANGEN**

Dylid ymgynghori â'r nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer Is-ddeddfau Enghreifftiol Set 2 wrth ddefnyddio'r Is-ddeddfau Enghreifftiol hyn

---

I S - D D E D D F A U   E N G H R E I F F T I O L   -   S E T   2

---

***[Enw'r Cyngor]***

# IS-DDEDDFAU AR GYFER TIROEDD HAMDDEN, RHODFEYDD CYHOEDDUS A MANNAU AGORED

TREFN YR IS-DDEDDFAU

RHAN [1]
CYFFREDINOL


1. Dehongli'n gyffredinol
2. [Cymhwyso]
3. [Cymhwyso]
4. Amserau agor


RHAN [2]
DIOGELU'R TIR, EI FYWYD GWYLLT A'R CYHOEDD


5. Diogelu adeiladwaith a phlanhigion
6. Codi adeiladwaith heb awdurdod
7. Dringo
8. Pori
9. Diogelu bywyd gwyllt
10. Gatiau [Clwydi]
11. Gwersylla
12. Tanau
13. Taflu pethau
14. Ymyrryd ag offer achub bywyd


RHAN [3]
CEFFYLAU, BEICIAU A CHERBYDAU


15. Dehongli Rhan [3]
16. Ceffylau [ - Caniateir marchogaeth ond rhaid iddo beidio â pheryglu unrhyw un]
17. Ceffylau [ - Gwaherddir marchogaeth heblaw ar diroedd penodol (yn ddarostyngedig i hawliau llwybr ceffylau, etc)]
18. Ceffylau [ - Gwaherddir marchogaeth (yn ddarostyngedig i unrhyw hawliau llwybr ceffylau, etc)]
19. Ceffylau [ - Gwaherddir marchogaeth heblaw ar lwybr dynodedig (yn ddarostyngedig i hawliau llwybr ceffylau, etc)]
20. Beicio
21. Cerbydau modur
22. Parcio dros nos

RHAN [4]
MANNAU CHWARAE, GEMAU A CHWARAEON

23. Dehongli  Rhan [4]
24. Mannau chwarae plant
25. Cyfarpar chwarae plant
26. Sglefrfyrddio, etc [Caniateir sglefrfyrddio, etc ond rhaid iddo beidio â pheryglu unrhyw un nac aflonyddu ar unrhyw un]
27. Sglefrfyrddio, etc [Caniateir, etc mewn man dynodedig yn unig]
28. Gemau pêl [ - Gwaherddir gemau pêl]
29. Gemau pêl [ - Caniateir gemau pêl mewn man dynodedig yn unig]
30. Gemau pêl [ - Caniateir gemau pêl ym mhob rhan o'r tir ond darperir man dynodedig ar gyfer gemau pêl hefyd]
31. Gemau pêl [ - Rheolau]
32. Criced
33. Saethu â bwa
34. Chwaraeon maes
35. Golff [ - Fe'i gwaherddir [heblaw ar gwrs golff]]
36. Golff [ - Fe'i caniateir pan fo rhan o'r tir wedi ei neilltuo i fod yn gwrs golff]

RHAN [5]
DYFRFFYRDD

37. Dehongli Rhan [5]
38. Ymdrochi
39. Sglefrio iâ [rhew]
40. Cychod model
41. Cychod [ - Er mwyn gwahardd defnyddio cychod [, etc] heb ganiatâd [heblaw mewn man dynodedig]]
42. Cychod [ - Mewn mannau lle y mae defnyddio cychod yn beth cyffredin]
43. Pysgota
44. Llygru
45. Rhwystro cyrsiau dŵr

RHAN [6]
AWYRENNAU MODEL

46. Dehongli  Rhan [6]
47. Awyrennau model [ - Gwaharddiad cyffredinol]
48. Awyrennau model [ - Caniateir awyrennau model ar diroedd penodol [ar ddiwrnodau penodedig ac ar amserau penodedig]]
49. Awyrennau model  [ - Caniateir awyrennau model  mewn mannau dynodedig]
50. Awyrennau model [ - Caniateir awyrennau model os ydynt o dan reolaeth benodol]
51. Awyrennau model [ - Caniateir rhai mathau tawelach o awyrennau model ]

RHAN [7]
GWEITHGAREDDAU ERAILL A REOLEIDDIR

52. Darparu gwasanaethau
53. Gormod o sŵn
54. Sioeau a pherfformiadau cyhoeddus
55. Awyrennau, crog-gleiderau a balwnau aer poeth
56. Barcutiaid
57. Canfyddwyr metel

RHAN [8]
AMRYWIOL

58. Rhwystro
59. Arbedion
60. Symud tramgwyddwyr
61. Y Gosb
62. Dirymu [ - Cyffredinol]
63. Dirymu [ - Wedi ei gyfyngu i gadw is-ddeddfau sy'n ymwneud â chŵn]

ATODLEN [1] - Tiroedd y mae'r is-ddeddfau yn gymwys iddynt yn gyffredinol
ATODLEN [2] - Tiroedd y cyfeirir atynt mewn is-ddeddfau penodol
ATODLEN [3] - Rheolau ar gyfer chwarae gemau pêl mewn mannau dynodedig

Is-ddeddfau a wnaed o dan [*adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875/adran 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906/adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906*] gan [*rhowch enw'r Cyngor*] ynghylch [*rhowch enw'r tir/disgrifiad o'i leoliad/* [tiroedd hamdden, rhodfeydd cyhoeddus a mannau agored]*.*

**[RHAN 1]**
**CYFFREDINOL**

**Dehongli'n gyffredinol**

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

*Dim ond termau sydd i'w defnyddio yn yr is-ddeddfau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu mabwysiadu y dylid eu dewis o'r rhestr hon:*

ystyr "cerbyd pobl anabl" yw cerbyd, p'un a yw'n cael ei yrru'n fecanyddol ai peidio,

(a) nad yw'n pwyso mwy na 150 o gilogramau, pan nad yw'n cario llwyth,

(b) nad yw'n fwy na 0.85 metr o led, ac

(c) a gafodd ei adeiladu neu ei addasu i'w ddefnyddio i gludo unigolyn sy'n dioddef o anabledd ac sy'n cael ei ddefnyddio gan y fath unigolyn yn unig.

ystyr "y Cyngor" yw [*rhowch enw'r Cyngor*];

ystyr "man dynodedig" yw man ar y tir sydd wedi ei neilltuo at ddiben penodol, a'r man hwnnw a'i ddiben i'w dangos ar hysbysiadau sydd wedi eu gosod mewn lle amlwg;

ystyr "y tir" yw [*rhowch enw'r tir neu ddisgrifiad o'i leoliad / [unrhyw un o'r tiroedd a restrir yn [yr Atodlen /Atodlen [1]*].

**Cymhwyso**

*Dylai cynghorau fabwysiadu NAILL AI is-ddeddf enghreifftiol 2 neu is-ddeddf enghreifftiol 3*

2. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i [*rhowch enw'r tir neu ddisgrifiad o'i leoliad /[yr holl diroedd a restrir yn [yr Atodlen /Atodlen 1]*].

3. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i'r holl diroedd a restrir yn [*yr Atodlen/Atodlen 1*] oni nodir yn wahanol.

**Amserau agor**

4. (1) Ni chaiff neb fynd ar y tir nac aros arno heblaw yn ystod yr oriau agor.

*Pan fydd is-ddeddf yn gymwys i fwy nag un tir*

(2) Ystyr “oriau agor” yw'r diwrnodau a'r amserau y mae'r tir yn agored i'r cyhoedd a’r rheini’n ddiwrnodau ac amserau sy'n cael eu dangos ar hysbysiad sydd wedi ei osod mewn lle amlwg wrth y fynedfa i'r tir.

*Pan fydd is-ddeddf yn gymwys i fwy nag un tir*

(3) Dim ond i'r tiroedd a restrir yn *[Rhan 1 o] Atodlen [2]* ] y mae is-ddeddf [4(1)] yn gymwys.

## RHAN [2]

## DIOGELU’R TIR, EI FYWYD GWYLLT A’R CYHOEDD

**Diogelu adeiladwaith a phlanhigion**

5. (1) Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, symud i ffwrdd o’r tir na symud o’i le ar y tir unrhyw un neu rai o’r pethau a ganlyn:

(a) unrhyw atalfa, postyn, sedd neu offeryn, neu unrhyw ran o adeiladwaith neu addurn sy’n cael ei ddarparu i’w ddefnyddio/defnyddio wrth gynllunio neu gynnal y tir; na

(b) unrhyw garreg, pridd neu dywarchen neu’r cyfan neu unrhyw ran o blanhigyn, llwyn neu goeden.

(2) Ni chaiff neb gerdded ar, na marchogaeth ceffyl na reidio unrhyw gerbyd dros, na gyrru ceffyl neu unrhyw gerbyd dros, na pheri i geffyl neu unrhyw gerbyd sefyll ar:

(a) unrhyw wely blodau, llwyn neu blanhigyn;

(b) unrhyw dir sydd wrthi’n cael ei baratoi fel gwely blodau neu i dyfu unrhyw goeden, llwyn neu blanhigyn; neu

(c) unrhyw ran o’r tir sydd wedi ei neilltuo gan y Cyngor i adnewyddu glaswellt neu at ddibenion tirlunio eraill, a hynny’n cael ei ddangos ag arwydd mewn lle amlwg.

**Codi adeiladwaith heb awdurdod**

6. Ni chaiff neb godi unrhyw atalfa, postyn, reid na siglen, adeilad nac unrhyw adeiladwaith arall heb gydsyniad y Cyngor.

**Dringo**

7. Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, ddringo unrhyw wal neu ffens ar y tir nac o’i amgylch, nac unrhyw goeden, atalfa, rheilin neu bostyn nac unrhyw adeiladwaith arall.

**Pori**

8. Ni chaiff neb droi allan unrhyw anifail y mae'n gyfrifol amdano i bori ar y tir na chaniatáu iddo wneud hynny heb gydsyniad y Cyngor.

**Diogelu bywyd gwyllt**

9. Ni chaiff neb ladd, anafu na chymryd unrhyw anifail nac aflonyddu arno, na hela, na saethu, na gosod trapiau na gosod maglau.

**Gatiau [Clwydi]**

10. (1) Ni chaiff neb adael ar agor unrhyw gât [glwyd], y mae'r is-ddeddf hon yn gymwys iddi, ac y mae yntau wedi ei hagor neu wedi achosi iddi gael ei hagor.

(2) Mae is-ddeddf 10(1) yn gymwys i unrhyw gât [glwyd] y mae arwydd amlwg ynghlwm wrthi neu'n cael ei harddangos wrth ei hymyl, sy'n nodi bod gadael y gât [glwyd] ar agor wedi ei wahardd.

**Gwersylla**

11. Ni chaiff neb, heb gydsyniad y Cyngor, godi pabell na defnyddio cerbyd, carafán nac unrhyw adeiladwaith arall er mwyn gwersylla, [*heblaw mewn man dynodedig ar gyfer gwersylla*].

**Tanau**

12. (1) Ni chaiff neb gynnau tân na gosod, taflu na gollwng matsien wedi ei thanio nac unrhyw beth arall sy'n debyg o achosi tân.

(2) Nid yw is-ddeddf 12(1) yn gymwys i:

*[(a)]* *[cynnau tân mewn unrhyw ddigwyddiad y mae'r Cyngor wedi rhoi caniatâd i gynnau tanau ynddo;] [ na]*

*[(b)]* *[cynnau neu ddefnyddio, mewn ffordd sy'n diogelu rhag niweidio neu beryglu unrhyw un, stôf wersylla, a wnaed yn gywir, mewn man dynodedig ar gyfer gwersylla, neu farbeciw a wnaed yn gywir, mewn man dynodedig ar gyfer barbeciws] .*

**Taflu pethau**

13. Ni chaiff neb daflu na defnyddio unrhyw ddyfais i yrru na gollwng unrhyw beth ar y tir sy'n debygol o anafu unrhyw un arall.

**Ymyrryd ag offer achub bywyd**

14. Ni chaiff neb, heblaw mewn argyfwng, symud unrhyw offer achub bywyd a ddarperir gan y Cyngor i ffwrdd o'r tir, na'i symud o'i le ar y tir, nac ymyrryd ag ef mewn ffordd arall.

## RHAN [3]

## CEFFYLAU, BEICIAU A CHERBYDAU

### Dehongli Rhan [3]

15. Yn y Rhan hon:

ystyr “beic modur” yw cerbyd sy'n cael ei yrru'n fecanyddol, nad yw’n gerbyd pobl anabl, y mae ganddo lai na phedair olwyn ac nad yw'n pwyso mwy na 410 o gilogramau;

ystyr “cerbyd modur” yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei yrru'n fecanyddol heblaw beic modur neu gerbyd pobl anabl;

ystyr “llwybr dynodedig” yw llwybr ar neu drwy’r tir sydd wedi ei neilltuo at ddiben penodol, ac y mae’r llwybr a’r diben hwnnw i'w dangos ar arwyddion sydd wedi eu gosod mewn lle amlwg;

ystyr “ôl-gerbyd” yw cerbyd sy'n cael ei dynnu gan gerbyd modur, ac mae’n cynnwys carafán.

### Ceffylau

*Caniateir marchogaeth*

16. Ni chaiff neb farchogaeth ar y tir mewn ffordd sy’n peryglu unrhyw un arall.

*Gwaherddir marchogaeth heblaw ar diroedd penodol (yn ddarostyngedig i hawliau llwybr ceffylau, etc)*

17. (1) Ni chaiff neb farchogaeth heblaw:

(a) ar unrhyw un o'r tiroedd a restrir yn Rhan [2] o Atodlen [2]; neu

(b) wrth arfer hawl neu fraint gyfreithlon.

(2) Pan ganiateir marchogaeth ar unrhyw dir yn rhinwedd is-ddeddf [17](1)(a) neu hawl neu fraint gyfreithlon, ni chaiff neb farchogaeth mewn ffordd sy’n peryglu unrhyw un arall.

*Gwaherddir marchogaeth (yn ddarostyngedig i hawliau llwybr ceffylau, etc)*

18. (1) Ni chaiff neb farchogaeth heblaw wrth arfer hawl neu fraint gyfreithlon.

(2) Pan ganiateir marchogaeth yn rhinwedd hawl neu fraint gyfreithlon, ni chaiff neb farchogaeth mewn ffordd sy’n peryglu unrhyw un arall.

*Gwaherddir marchogaeth heblaw ar lwybr dynodedig (yn ddarostyngedig i hawliau llwybr ceffylau, etc)*

19. (1) Ni chaiff neb farchogaeth heblaw:

(a) ar lwybr dynodedig ar gyfer marchogaeth; neu

(b) wrth arfer hawl neu fraint gyfreithlon.

(2) Pan ganiateir marchogaeth yn rhinwedd is-ddeddf [19](1)(a) neu hawl neu fraint gyfreithlon, ni chaiff neb farchogaeth mewn ffordd sy'n peryglu unrhyw un arall.

**Beicio**

20. Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, reidio beic ar y tir heblaw mewn unrhyw ran o'r tir lle y mae hawl tramwy i feiciau [neu ar lwybr dynodedig ar gyfer beicio].

**Cerbydau modur**

21. (1) Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, ddod â beic modur, cerbyd modur na threlar ar y tir, na'i yrru arno, heblaw ar unrhyw ran o'r tir lle y mae hawl tramwy [*neu lwybr dynodedig*] ar gyfer y dosbarth cerbyd hwnnw.

(2) [Pan fydd llwybr dynodedig ar gyfer beiciau modur, cerbydau modur neu drelars, ni fydd yn dramgwydd o dan yr is-ddeddf hon i ddod â cherbyd o'r dosbarth hwnnw i'r tir, nac i'w yrru arno, yn unswydd i'w symud i'r llwybr].

**Parcio dros nos**

22. Ni chaiff neb, heb gydsyniad y Cyngor, adael unrhyw gerbyd modur na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur gael ei adael ar y tir rhwng 10 p.m. a 6 a.m.

## RHAN [4]

## MANNAU CHWARAE, GEMAU A CHWARAEON

**Dehongli Rhan [4]**

23. Yn y Rhan hon:

ystyr "cerbyd hunanyredig" yw cerbyd heblaw beic, cerbyd pobl anabl neu bram sy'n cael ei yrru gan bwysau neu rym un neu ragor o bobl yn sglefrio, yn sleidio neu'n reidio ar y cerbyd, neu gan un neu ragor o bobl yn tynnu'r cerbyd neu'n ei wthio;

ystyr "cwrs golff" yw unrhyw fan ar y tir sydd wedi ei neilltuo at ddibenion chwarae golff ac mae'n cynnwys unrhyw faes ymarfer golff, ardal ymarfer golff neu gwrs pytio;

ystyr "gemau pêl" yw unrhyw gêm sy'n cynnwys taflu, dal, cicio, neu fatio unrhyw bêl neu wrthrych arall y bwriedir iddi/iddo gael ei thaflu/daflu a'i

dal/ddal, neu redeg gyda phêl neu wrthrych o’r fath, ond nid yw’n cynnwys criced.

**Mannau chwarae plant**

24. Ni chaiff neb sy'n 14 oed neu drosodd fynd i fan dynodedig sy'n fan chwarae i blant, nac aros yno, oni bai ei fod yn gofalu am blentyn sydd o dan 14 oed.

**Cyfarpar chwarae plant**

25. Ni chaiff neb sy'n 14 oed neu drosodd ddefnyddio unrhyw gyfarpar y mae hysbysiad sydd wedi ei osod mewn lle amlwg ar y cyfarpar neu wrth ei ymyl yn datgan ei fod ar gyfer pobl o dan 14 oed yn unig.

**Sglefrfyrddio, etc**

*Caniateir sglefrfyrddio, etc ond rhaid iddo beidio â pheryglu unrhyw un ac aflonyddu ar unrhyw un*

26. Ni chaiff neb sglefrio, sleidio na reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrddau nac unrhyw gerbydau hunanyredig eraill mewn ffordd sy’n peryglu pobl eraill neu sy'n rhoi sail resymol iddynt honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arnynt.

*Caniateir sglefrfyrddio, etc mewn man dynodedig yn unig*

27. (1) Ni chaiff neb sglefrio, sleidio na reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrddau na cherbydau hunanyredig eraill heblaw mewn man dynodedig ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

(2) Pan fo man dynodedig ar gyfer sglefrio, sleidio neu reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrddau neu gerbydau hunanyredig eraill, ni chaiff neb ymgymryd â'r gweithgareddau hynny mewn ffordd sy’n peryglu pobl eraill neu sy'n rhoi sail resymol iddynt honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arnynt.

**Gemau pêl**

*Gwahardd gemau pêl*

28. Ni chaiff neb chwarae pêl ar y tir.

*Caniateir gemau pêl mewn mannau dynodedig yn unig*

29. Ni chaiff neb chwarae gemau pêl ar y tir heblaw mewn man dynodedig ar gyfer chwarae gemau pêl.

*Caniateir gemau pêl ym mhob rhan o'r tir ond darperir man dynodedig ar gyfer gemau pêl hefyd*

30. Ni chaiff neb chwarae gemau pêl y tu allan i fan dynodedig ar gyfer chwarae gemau pêl mewn ffordd sydd:

(a) yn golygu na all pobl nad ydynt yn chwarae gemau pêl ddefnyddio'r rhan honno;

(b) yn peryglu unrhyw un arall ar y tir neu sy'n rhoi sail resymol iddo honni bod y gweithgaredd yn aflonyddu arno; neu

(c) yn debyg o achosi niwed i unrhyw goeden, llwyn neu blanhigyn ar y tir.

*Rheolau (i'w defnyddio gydag is-ddeddf enghreifftiol 29 neu 30)*

31. Mae'n dramgwydd i unrhyw un sy'n defnyddio man dynodedig ar gyfer chwarae gemau pêl dorri unrhyw un neu rai o'r rheolau sydd wedi eu nodi yn Atodlen [3] ac sydd wedi eu dangos ar arwydd mewn lle amlwg yn y man dynodedig pan fydd unrhyw un yn gofyn iddo roi'r gorau i dorri'r rheolau hynny.

**Criced**

32. Ni chaiff neb daflu na tharo pêl griced â bat heblaw mewn man dynodedig ar gyfer chwarae criced.

**Saethu â bwa**

33. Ni chaiff neb saethu â bwa heblaw mewn cysylltiad â digwyddiad a drefnwyd gan y Cyngor neu sy'n cael ei gynnal gyda chydsyniad y Cyngor.

**Chwaraeon maes**

34. Ni chaiff neb daflu unrhyw waywffon, morthwyl, disgen neu bwysau, heblaw mewn cysylltiad â digwyddiad a drefnwyd gan y Cyngor neu’n cael ei gynnal gyda chydsyniad y Cyngor [*neu ar dir a neilltuwyd gan y Cyngor at y diben hwnnw*].

**Golff**

*Gwaherddir golff [heblaw pan fo rhan o dir wedi ei neilltuo i fod yn gwrs golff]*

35. Ni chaiff neb yrru, tsipio na phitsio pêl golff galed [*heblaw ar y cwrs golff*].

*Pan fo rhan o dir wedi ei neilltuo i fod yn gwrs golff*

36. (1) Ni chaiff neb chwarae golff ar y cwrs golff oni fydd ganddo docyn dilys a roddwyd gan y Cyngor neu ar ei ran ac sy'n rhoi hawl iddo wneud hynny, a hwnnw'n docyn y mae'n rhaid ei gadw a'i ddangos, os bydd gofyn iddo wneud hynny, i unrhyw un o swyddogion neu asiantau awdurdodedig y Cyngor.

(2) Ni chaiff neb fynd ar y cwrs golff nac aros arno oni fydd:

(a) yn cymryd rhan yn y gêm golff neu'n mynd gydag unigolyn sydd wrthi'n gwneud hynny; neu

(b) yn gwneud hynny gan arfer hawl neu fraint gyfreithlon.

(3) Ni chaiff neb gynnig ei wasanaeth er mwyn cael ei hurio fel hyfforddwr ar y cwrs golff heb gydsyniad y Cyngor.

## RHAN [5]

## DYFRFFYRDD

### Dehongli Rhan [5]

37. Yn y Rhan hon:

ystyr “cwch” yw unrhyw gwch hwylio, cwch modur neu gwch tebyg ond nid cwch model na chwch tegan;

ystyr “dyfrffordd” yw unrhyw afon, llyn, pwll neu grynofa ddŵr arall, gan gynnwys unrhyw ffownten;

ystyr “pweredig” yw wedi ei yrru drwy losgi anwedd petrol neu sylweddau llosgadwy eraill.

### Ymdrochi

38. Ni chaiff neb, heb esgus rhesymol, ymdrochi na nofio mewn unrhyw ddyfrffordd *[heblaw mewn man dynodedig ar gyfer ymdrochi a nofio*].

### Sglefrio iâ [rhew]

39. Ni chaiff neb gamu ar ddyfrffordd sydd wedi rhewi na rhoi eu pwysau arni mewn rhyw ffordd arall.

### Cychod model

40. Ni chaiff neb weithio cwch model pweredig ar unrhyw ddyfrffordd [*heblaw mewn man dynodedig ar gyfer cychod model*].

### Cychod

*Er mwyn gwahardd defnyddio cychod [ac os yw'n briodol ddosbarth ehangach o longau] heb ganiatâd [heblaw mewn mannau dynodedig]*

41. Ni chaiff neb hwylio na gweithio unrhyw gwch [dingi, canŵ, bwrdd hwylio na chwch gwynt] ar unrhyw ddyfrffordd heb gydsyniad y Cyngor *[heblaw mewn man dynodedig ar gyfer hwylio neu weithio cychod].*

*Mewn ardaloedd lle mae defnyddio cychod yn beth cyffredin*

42. (1) Ni chaiff neb, ar unrhyw ddyfrffordd, hwylio na gweithio unrhyw gwch nad yw wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor.

(2) Mae cwch wedi ei gofrestru at ddibenion is-ddeddf 42(1) pan fydd y perchennog wedi gwneud cais ysgrifenedig i'r Cyngor a bod y Cyngor:

(a) wedi cofnodi enw a chyfeiriad y perchennog, disgrifiad cyffredinol o'r cwch a rhif cyfresol y cofrestriad mewn cofrestr sy'n cael ei chadw gan un o swyddogiion awdurdodedig y Cyngor; a

(b) wedi rhoi tystysgrif gofrestru sy'n cynnwys y manylion hyn i'r perchennog.

**Pysgota**

43. Ni chaiff neb fwrw rhwyd na llinell i unrhyw ddyfrffordd er mwyn dal pysgod neu anifeiliaid eraill [*heblaw mewn man dynodedig ar gyfer pysgota*].

**Llygru**

44. Ni chaiff neb faeddu na llygru unrhyw ddyfrffordd.

**Rhwystro cyrsiau dŵr**

45. Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i lif unrhyw ddraen neu ddyfrffordd ar y tir gael ei rwystro, ei ddargyfeirio, ei agor neu ei gau na symud na gweithio unrhyw lifddor neu gyfarpar tebyg.

## RHAN [6]

## AWYRENNAU MODEL

**Dehongli Rhan [6]**

46. Yn y Rhan hon:

ystyr "awyren fodel" yw awyren nad yw'n pwyso mwy na 7 cilogram heb ei thanwydd;

ystyr "pweredig" yw wedi ei gyrru:

(a) drwy losgi anwedd petrol neu sylweddau llosgadwy eraill;

(b) â gyriant jet neu drwy gyfrwng roced, heblaw drwy gyfrwng motor adweithiol bach sy'n cael ei bweru gan belen danwydd solet nad yw'n fwy na 2.54 centimedr o hyd; neu

(c) gan un neu fwy o fotorau trydan neu â nwy cywasgedig.

ystyr "rheolaeth radio" yw rheolaeth â signal radio o drosglwyddydd radio neu ddyfais debyg.

**Gwaharddiad cyffredinol**

47. Ni chaiff neb achosi i unrhyw awyren fodel pweredig:

(a) esgyn na chael ei rhyddhau mewn rhyw ffordd arall i hedfan na rheoli'r ffordd y mae'r awyren honno yn cael ei hedfan ar y tir; na

(b) glanio ar y tir heb esgus rhesymol.

*Caniateir awyrennau model ar diroedd penodol [ar ddiwrnodau penodedig ar amserau penodedig]*

48. Nid yw is-ddeddf 47 yn gymwys i'r tiroedd a restrir yn [*Rhan [3] o Atodlen 2*] / [*colofn 1 o'r tabl yn Rhan [3] o Atodlen [2]*] ar y diwrnodau a'r amserau sydd wedi eu nodi ar gyfer pob tir yng ngholofn 2 o'r tabl hwnnw].

*Caniateir awyrennau model mewn mannau dynodedig*

49. Ni chaiff neb achosi i unrhyw awyren fodel pweredig:

(a) esgyn na chael ei rhyddhau mewn rhyw ffordd arall i hedfan na rheoli'r ffordd y mae'r awyren honno'n hedfan; na

(b) glanio ar y tir heb esgus rhesymol;

heblaw mewn man dynodedig ar gyfer hedfan awyrennau model.

*Awyrennau model o dan reolaeth benodol*

50. Nid yw is-ddeddf [*47]*/[*49*] yn gymwys i unrhyw awyren fodel sydd [*ynghlwm wrth lein reoli*]/[*yn cael ei chadw o dan reolaeth radio effeithiol*].

*Caniateir mathau tawelach o awyrennau model*

51. Nid yw is-ddeddf [*47]/[49*] yn gymwys i unrhyw awyren fodel:

(a) nad yw ei mesuriad sŵn yn fwy nag 82 dB(A) o'i fesur ar bellter o 7 metr o'r awyren yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan Orchymyn Rheoli Sŵn (Cod Ymarfer ar Sŵn o Awyrennau Model) 1981; a

(b) sydd wedi ei ffitio, pan fydd yn rhesymol ymarferol i'w ffitio, â distewydd effeithiol neu ddyfais debyg.

## RHAN [7]

## GWEITHGAREDDAU ERAILL A REOLEIDDIR

**Darparu gwasanaethau**

52. Ni chaiff neb, heb gydsyniad y Cyngor, ddarparu unrhyw wasanaeth y codir tâl amdano na chynnig darparu gwasanaeth o'r fath.

**Gormod o sŵn**

53. (1) Ni chaiff neb, ar ôl i unrhyw un arall ar y tir ofyn iddo beidio â gwneud hynny, wneud unrhyw sŵn, na chaniatáu i unrhyw sŵn gael ei wneud, sydd mor uchel neu sydd mor barhaus neu fynych, ag i roi achos rhesymol i bobl eraill ar y tir allu honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arnynt:

(a) drwy weiddi neu ganu;

(b) drwy chwarae offeryn cerdd; neu

(c) drwy weithio unrhyw radio, mwyhäwr sain, recordydd tâp neu ddyfais debyg, neu ganiatáu i unrhyw ddyfeisiau o'r fath gael eu gweithio.

(2) Nid yw is-ddeddf 53(1) yn gymwys i unrhyw un sy'n cynnal unrhyw adloniant sy'n cael ei gynnal gyda chydsyniad y Cyngor, neu sy'n cymryd rhan yn yr adloniant hwnnw.

**Sioeau a pherfformiadau cyhoeddus**

54. Ni chaiff neb gynnal unrhyw sioe neu berfformiad cyhoeddus na chymryd rhan mewn sioe neu berfformiad o'r fath heb gydsyniad y Cyngor.

**Awyrennau, crog-gleiderau a balwnau aer poeth**

55. Ni chaiff neb heblaw mewn argyfwng neu gyda chydsyniad y Cyngor esgyn o’r tir na glanio arno mewn awyren, hofrennydd, crog-gleider neu falŵn aer poeth.

**Barcutiaid**

56. Ni chaiff unrhyw un hedfan unrhyw farcud mewn ffordd sy’n peryglu unrhyw un arall neu’n rhoi achos rhesymol iddo honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arno.

**Canfyddwyr metel**

57. (1) Ni chaiff neb, heb gydsyniad y Cyngor, ddefnyddio unrhyw ddyfais sydd wedi ei chynllunio neu wedi ei haddasu i ddarganfod unrhyw fetel neu fwyn ar y tir.

(2) Nid yw is-ddeddf 57(1) yn gymwys i [*rhowch enw'r tir neu ddisgrifiad ohono*].

## RHAN [8]

## AMRYWIOL

**Rhwystro**

58. Ni chaiff neb rwystro:

(a) unrhyw un o swyddogion y Cyngor wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau yn briodol;

(b) unrhyw un sy'n cyflawni unrhyw weithred sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni unrhyw gontract â'r Cyngor yn briodol; neu

(c) unrhyw un arall wrth iddo ddefnyddio'r tir yn briodol.

**Arbedion**

59. (1) Nid yw'n dramgwydd o dan yr is-ddeddfau hyn i un o swyddogion y Cyngor neu unrhyw un sy'n gweithredu'n unol â chontract â'r Cyngor wneud unrhyw beth sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni ei ddyletswydd yn briodol.

(2) Ni fydd unrhyw beth sydd yn yr is-ddeddfau hyn, neu sy'n cael ei wneud oddi tanynt, yn rhagfarnu mewn unrhyw ffordd, nac yn effeithio'n andwyol ar, unrhyw hawl dramwy gyhoeddus drwy'r tir, na hawliau unrhyw un sy'n gweithredu'n gyfreithlon yn rhinwedd rhyw ystad, hawl neu fuddiant sydd yn neu dros y tir neu unrhyw ran ohono, neu sy'n effeithio ar y tir neu unrhyw ran ohono.

**Symud tramgwyddwyr**

60. Caiff un o swyddogion y Cyngor neu gwnstabl symud unrhyw un sy'n tramgwyddo yn erbyn unrhyw un neu rai o'r is-ddeddfau hyn o'r tir.

**Y Gosb**

61. Mae unrhyw un sy'n tramgwyddo yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn yn agored, yn dilyn collfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

**Dirymu**

62. Mae'r is-ddeddfau a wnaed gan *rhowch yr enw* ar *rhowch y dyddiad* ac a gadarnhawyd gan *rhowch enw'r awdurdod sy'n cadarnhau* ar *rhowch y dyddiad cadarnhau* mewn cysylltiad â'r tir drwy hyn wedi eu dirymu.

**YR ATODLENNI**

ATODLEN [1]

**Y TIROEDD Y MAE IS-DDEDDFAU YN GYMWYS IDDYNT [YN GYFFREDINOL]**

Y tiroedd y cyfeirir atynt yn is-ddeddf [2]/[3] yw:

…

ATODLEN 2

**Y TIROEDD Y CYFEIRIR ATYNT MEWN IS-DDEDDFAU PENODOL**

RHAN [1]

AMSERAU AGOR (IS-DDEDDF [4](1))

…

RHAN [2]

GWAHERDDIR MARCHOGAETH HEBLAW AR DIROEDD PENODOL (YN DDAROSTYNGEDIG I HAWLIAU LLWYBR CEFFYLAU, ETC) (IS-DDEDDF [17](1))

…

RHAN [3]

CANIATEIR I AWYRENNAU MODEL GAEL EU DEFNYDDIO AR DDIWRNODAU PENODEDIG AR AMSERAU PENODEDIG (IS-DDEDDF [48])

| *Enw'r tir neu ddisgrifiad ohono* | *Y diwrnodau a'r amserau y mae defnyddio awyrennau model yn cael ei ganiatáu* |
|---|---|
| Parc E | |
| Parc F | |

ATODLEN [3]

**RHEOLAU AR GYFER CHWARAE GEMAU PÊL MEWN MANNAU DYNODEDIG (IS-DDEDDF [31])**

Mae is-ddeddf [31] yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n defnyddio man dynodedig ar gyfer chwarae gemau pêl gydymffurfio â'r rheolau a ganlyn:

(1) Ni chaiff neb chwarae unrhyw gêm nad yw'n un o'r gemau pêl hynny y mae'r man dynodedig wedi ei neilltuo ar ei gyfer.

(2) Ni chaiff neb rwystro unrhyw un arall sy'n chwarae yn unol â'r rheolau hyn.

(3) Pan fydd hawl unigryw wedi ei rhoi gan y Cyngor i unigolyn neu grŵp o bobl i ddefnyddio'r man dynodedig am gyfnod penodedig, ni chaiff neb arall chwarae yn y man hwnnw yn ystod y cyfnod hwnnw.

(4) Yn ddarostyngedig i baragraff (5), pan fo’r man dynodedig eisoes yn cael ei ddefnyddio gan unrhyw un, rhaid i unrhyw un arall sy'n dymuno chwarae yn y man hwnnw geisio cael caniatâd ganddo i wneud hynny.

(5) Heblaw pan fydd unrhyw un wedi cael hawl unigryw gan y Cyngor i ddefnyddio'r man dynodedig am fwy na dwy awr, rhaid i unrhyw un sy'n defnyddio'r man hwnnw ymadael ag ef os yw wedi bod yn chwarae am gyfnod parhaus o ddwy awr neu fwy a bod unrhyw un arall yn dymuno defnyddio'r man hwnnw.

(6) Ni chaiff neb chwarae yn y man dynodedig pan fo hysbysiad wedi ei osod mewn lle amlwg gan y Cyngor yn gwahardd chwarae yn y man hwnnw.